**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS-02-03(p.4)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, Chwefror 5 2003**

**Lleoliad:** **Ystafelloedd Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Y Gynddaredd yn y Ddeyrnas Unedig**

## Rhagarweiniad

1. Amlinellodd papur HSS-23-02 (p.4) ar gyfer y cyfarfod ar 18 Rhagfyr 2002, wybodaeth gefndirol mewn perthynas â'r achos diweddar lle bu farw dyn trin ystlumod o'r gynddaredd [1]. Holodd yr Aelodau pa mor bosibl oedd i feirysau o'r fath gael eu trosglwyddo i anifeiliaid eraill a phobl.

Cyflwynodd Paragraff 11 y papur blaenorol ddatganiad cyffredinol mewn perthynas â'r peryglon hyn: *Mae'n amlwg o'r 2 achos hwn yn ddiweddar ei bod yn dra thebygol bod feirws EBL ymhlith ystlumod. Mae'n anarferol i'r stereoteip arbennig hwn fynd y tu hwnt i ystlumod. Anaml iawn y byddant yn heintio anifeiliaid eraill a phobl.*

## Ymateb i Gwestiynau Aelodau

2. Cafwyd y cwestiynau a'r atebion canlynol o wefan PHLS[2]:

**A all EBLs heintio pobl, neu anifeiliaid eraill ac eithrio ystlumod?**

Nid yw EBLs bron byth yn croesi ffiniau rhywogaethau;golyga hyn ei bod yn anhebygol iawn i anifeiliaid eraill gael eu heintio hyd yn oed os gwyddys bod y feirws ar ystlumod o fewn gwlad neu ranbarth arbennig. Fodd bynnag, gallai ddigwydd.

Mae'r feirws wedi'i ddarganfod ar ddefaid yn Nenmarc ddwy waith a darganfuwyd y feirws ar fele'r graig yn Yr Almaen.

Nid oes ond tri pherson yn Ewrop wedi'u heintio â'r Gynddaredd ers 1977, un yn Y Ffindir a dau yn yr hen USSR, er gwaethaf y ffaith fod dros 600 o achosion wedi bod mewn ystlumod. Roedd y tri pherson yr oedd y feirws arnynt wedi bod mewn cysylltiad agos ag ystlumod ac nid oeddent wedi derbyn triniaeth ar ôl hynny.

**Sut mae EBLs yn cael eu trosglwyddo i bobl neu anifeiliaid eraill?**

Trosglwyddir EBLs:

- drwy frathiad neu grafiad gan ystlum heintus,
- os bydd poer neu feinwe nerfol o'r ystlum yn mynd i lygaid person, neu os bydd person yn dod i gysylltiad â philennau gludiog, er enghraifft leinin y geg neu'r trwyn, neu groen toredig.

Mewn geiriau eraill, nid yw pobl mewn perygl drwy fod yn yr un ystafell â'r ystlum. Serch hynny, os yw unrhyw un yn dod i gysylltiad â phoer neu feinwe nerfol ystlum neu os yw rhywun yn cael ei grafu neu'i frathu gan ystlum fe'u cynghorir i gael sylw meddygol ar unwaith, fel y gwneir ar ôl cael brathiad gan unrhyw anifail.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Dr Mike Simmons, Uwch Swyddog Meddygol. Ffôn: 029 2082 3505

---

Mae papur HSS-23-02(p.4) ar gael yn: http://www.wales.gov.uk/servlet/HealthAndSocialServicesCommittee?area_code=37D6A89F00087B5500001214000000000&document_code=N0000000000000000000000000005105&module=dynamicpages&month_year=12|

2002 ar 6ed Ionawr 2003

[2] http://www.phls.co.uk/topics az/rabies/ebl.htm